<p>Ynys Môn / Anglesey Rheinallt Thomas (RT)</p> <p>Blaenau Gwent Kathy Riddick (KR) Chris Abbas (CA)</p> <p>Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend Alice Parry (AP)</p> <p>Caerffili/ Caerphilly John Taylor (JT) Janet Jones (JJ)</p> <p>Caerdydd / Cardiff</p> <p>Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire Gwyneth Thomas (GT) Aled Jones (AJ)</p> <p>Ceredigion Mary Davies (MD) Maldwyn Pryse (MP)</p> <p>Conwy Phil Lord (PL) Jennie Downes (JD) Collete Owen (CO) Roger Boon (RB)</p>	<p>Sir Ddinbych / Denbighshire Phil Lord (PL) Collete Owen (CO)</p> <p>Sir y Fflint / Flintshire Dave Mackie (DM) Jane Borthwick</p> <p>Gwynedd Paul Rowlinson (PR)</p> <p>Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil</p> <p>Sir Fynwy / Monmouthshire Louise Brown (LB) Suzanne Gooding (SG)</p> <p>Castell-nedd Port Talbot / Neath and Port Talbot Rachel Samuel (RS) Lee Workman (LW)</p> <p>Casnewydd / Newport Neeta Baicher (NB) Huw Stephens (HS) Peter Rees (PR) Mike Daley (MD)</p> <p>Sir Benfro / Pembrokeshire</p>	<p>Powys John Mitson (JM) Mary Strong (MS)</p> <p>Rhondda Cynon Taf Donna Graves (DG) Matthew Maidment (MM)</p> <p>Abertawe / Swansea Jennifer Harding-Richards (JHR)</p> <p>Torfaen Anna Britten (AB)</p> <p>Bro Morgannwg / Vale of Glamorgan</p> <p>Wrecsam / Wrexham Libby Jones (LJ) Tania ap Siôn (TS)</p>	<p>PYCAG</p> <p>Arsyllwyr: MAGC</p> <p>CBAC Andrew Pearce (AP)</p> <p>ESTYN</p> <p>Llywodraeth Cymru</p> <p>Cyngor Addysg Grefyddol Kathy Riddick (KR)</p> <p>Eglwys yng Nghymru Elizabeth Thomas (ET)</p> <p>Gwasanaeth Addysg Gatholig Angela Keller (AK)</p> <p>Cymwysterau Cymru</p> <p>Rhwydwaith Rhyng-ffydd</p> <p>CCAC Prifysgol Cymru Elin Stock (ES)</p> <p>Cyflwynwyr Hayley Jones (HJ)</p> <p>Cofnodion (o recordiad) Jo Nicholls (JN)</p>
--	--	--	---

Cofnodion y cyfarfod

1. Cyflwyniad a chroeso

Croesawodd RS bawb (yn Gymraeg a Saesneg) i gyfarfod y gwanwyn.

Croesawyd pawb gan Mike Daley, Prif Swyddog Cefnogi Addysg, Castell-nedd Port Talbot, ar ran Andrew Thomas, Cyfarwyddwr Addysg yr Awdurdod oedd yn lletya.

Soniodd MD am heriau'r ddwy flynedd ddiwethaf i ddysgwyr ac ysgolion ynghyd â'r argyfwng costau byw presennol. Mae ysgolion ac athrawon wedi gorfod ymdopi â chwestiynau mawr gan y dysgwyr ac addasu bron dros nos i ffordd wahanol o weithio.

Mae'r rheiny sy'n gweithio mewn ysgolion yn rhyfeddol, yn wydn ac yn ysbrydoledig. Mae'r Awdurdod Lleol yn rhoi pwyslais mawr ar les disgyblion, ac mae angen i ni gofio ystyried a chefnogi'r rheiny sy'n gweithio yn yr ysgolion yn ogystal â'r dysgwyr.

Manteisiodd MD ar y cyfle i ddiolch i bawb sy'n gweithio mewn ysgolion ac i CCYSGauC am gefnogi'r ysgolion yn ystod yr amser anodd hwn.

Gyda chyflwyno'r cwricwlwm i Gymru i blant hyd at 11 oed ym mis Medi eleni a'r her i ysgolion orfod ystyried dyluniad a sut i gyflwyno'r crefydd, gwerthoedd a moeseg mandadol, ni fu rôl CCYSGauC erioed mor bwysig. Mae cyfraniad CCYSGauC yn y prosiectau niferus sy'n cefnogi a hyrwyddo addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yng Nghymru yn amhrisiadwy. Ni fu pwysigrwydd a pherthnasedd cyfarfodydd o'r fath wrth ymateb i'r materion pwysig hyn mor amlwg ag y maent yn awr. Mae'r angen i weithio gyda'n gilydd, i rannu arfer da, i ymgysylltu â phroses y rhaglen ddiwygio ar ran pob CYSAG yn hanfodol.

Diolchodd RS i MD am ei gyflwyniad.

2. Myfyrio tawel

Dywedodd RS fod yr adeg hon o'r flwyddyn i grefydd yn adeg o fyfyrion a chadarnhau ffydd. Cristnogaeth â'r Pasg, Iddewiaeth â Gŵyl y Bara Croyw, Islam a Ramadan a Baha'i yn dathlu'r flwyddyn newydd. Mae'r digwyddiadau hyn o gadarnhad yn ganolog i bob ffydd er bod y byd rydym yn byw ynddo mewn cythrwfl. Arweiniodd RS yr aelodau drwy fyfyrddod ar y bobl hynny sy'n dioddef o ganlyniad i weithredoedd pobl eraill.

3. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan John Meredith (Blaenau Gwent) Edward Evans, (Pwyllgor Gwaith), Vicky Barlow (CYSAG Sir y Fflint), Angela Keller (Gwasanaeth Addysg Gatholig), Rachel Bendall (CCAC) a'r Cynghorydd Huw James.

4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf ar Microsoft Teams 23 Tachwedd 2021.

Gofynnodd LB am newid ar dudalen 4, 'prif grefyddau', a ddylai ddarllen 'Cristnogaeth a phrif grefyddau eraill'.

Cadarnhaodd CO ei bod hi'n bresennol yn y cyfarfod diwethaf ac eglurodd y bydd ei henw ar restr presenoldeb Teams yn ymddangos fel 'Ysgol Gynradd' yn y cyfarfodydd nesaf. Gyda'r ddau newid hyn, cytunwyd fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2021. Cynigiodd HS dderbyn y cofnodion ac eiliwyd gan RT.

5. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod diwethaf CCYSAGauC

Eglurodd RS fod y materion sy'n codi o'r cyfarfod diwethaf wedi'u cynnwys ymhlith eitemau agenda cyfarfod heddiw.

Dyweddodd RB, Cadeirydd CYSAG Conwy, nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf a'i fod yn dymuno egluro rhywfaint am y pryder a fynegwyd am berthynas GwE â ChYSAG Conwy. Cadarnhaodd RB fod yr ALI wedi tynnu ei gymorth ariannol i'r CYSAG yn ôl. O ganlyniad, roedd RB wedi cynhyrchu cynllun datblygu tair blynedd ar gyfer gwaith y CYSAGau a'i anfon i'r Cyfarwyddwr Addysg. Roedd y Cyfarwyddwr yn gefnogol iawn a bellach mae'r cynllun wedi'i integreiddio â datblygiad y cwricwlwm newydd. Sefydlwyd partneriaeth newydd gyda'r ALI, y CYSAGau a'r athrawon. Daeth PL yn ôl fel ymgynghorydd rhan amser a bellach mae ef yn mynychu cyfarfodydd cynllunio'r awdurdod pan mae'r rheiny'n berthnasol i CGM. Mae PL yn gyfrifol hefyd am arwain tîm o athrawon i ddatblygu adnoddau i'r cwricwlwm newydd.

Nid oedd yr awdurdodau wedi llwyr ymrwymo i waith y CYSAG; fodd bynnag, mae'r Cyfarwyddwr Addysg bellach yn mynychu cyfarfodydd, ac mae ganddynt weithgor llwyddiannus, ond byddai'n fuddiol cael mwy o amser PL.

Croesawodd RS y cynnydd cadarnhaol hwn yng Nghonwy a diolchodd i RB am rannu.

6. Cynadleddau Maes Llafur Cytunedig 2022

Rhoddodd RS ddiweddariad am y cynadleddau maes llafur cytunedig a drefnir gan yr ALI. Roedd yn cynnwys canllawiau allweddol ac ymatebion gan Lywodraeth Cymru i'r cwestiynau y mae CYSAGau wedi bod yn eu gofyn i CCYSAGauC. Bydd copi Saesneg yn cael ei anfon drwy e-bost ar ôl y cyfarfod a bydd y cyfieithiad Cymraeg ar gael ar ddiwedd yr wythnos.

Prif agweddau cyflwyniad RS:

Crynodeb o'r Ddeddfwriaeth – nodau'r maes llafur cytunedig

Y maes llafur cytunedig a'r Cwricwlwm i Gymru

Penderfynu'n Lleol

Negeseuon allweddol wrth lunio maes llafur cytunedig

Ymatebion LIC i gwestiynau CCYSAGauC

- Enghreifftiau o sut mae gwahanol leoliadau/ALLau wedi ymateb

- Daw'r enghraifft gyntaf gan Libby Jones, CYSAG Wrecsam

Galwodd ALI Wrecsam gyfarfod cychwynnol i drafod Cynhadledd y Maes Llafur Cytunedig (y Gynhadledd) ym mis Ionawr 2022. Agorwyd y drafodaeth a chyflwynwyd canllawiau CGM. O'r cyfarfod hwnnw sefydlwyd gweithgor i weithio ar ran y Gynhadledd. Roedd y gweithgor hwn yn cynnwys cynrychiolwyr a wahoddwyd o'r Gynhadledd, o Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd Wrecsam, Cymdeithas Penaethiaid Uwchradd Wrecsam, hefyd athrawon eraill ac unigolion yr ystyrid a allai helpu i baratoi'r maes llafur cytunedig drafft. Cyfarfu'r gweithgor bob pythefnos i edrych ar y canllawiau CGM yn fanwl.

Yng nghynhadledd y maes llafur cytunedig yn lonawr ychydig o gwestiynau a gafwyd am gynnwys y canllawiau a deddfwriaeth CGM oherwydd roedd y rhain wedi'u rhannu'n flaenorol wrth ddatblygu'r canllawiau. Roedd yr aelodau'n fodlon â'r cynnwys. Roedd y cwestiynau a gododd yn ymwneud â phroses a phrotocol, ac aethpwyd â'r rhain i Lywodraeth Cymru, ac maent wedi cael sylw yng nghyflwyniad RS heddiw.

Yn hytrach na chopio'r testun o Hwb a'i roi mewn dogfen, penderfynwyd y byddai dolenn o'r maes llafur cytunedig yn syth at y canllawiau CGM yn cael ei rhoi yn y maes llafur cytunedig drafft ac y byddai dolenni wedi'u hymgorffori i wahanol adrannau o'r canllawiau. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru ddarparu'r dolenni corfforedig hyn ar Hwb fel y gellir cysylltu'n hawdd â gwahanol adrannau.

Er bod gwybodaeth ychwanegol ym maes llafur cytunedig Wrecsam, nid gwybodaeth newydd mohoni ond meysydd penodol y byddai Wrecsam yn hoffi tynnu sylw arbennig atynt o'r canllawiau a'r deddfwriaeth.

Diben a bwriad y canllawiau yw i'w darllen ar-lein. Mae'n bwysig ei wneud yn hawdd ei ddefnyddio i ysgolion ac ymarferwyr. Dylai ymarferwyr yn arbennig fod yn gallu mynd i'r gwahanol adrannau yn hawdd a chael mynediad at y dolenni corfforedig i fynd at y fframwaith e.e., dolenni at y 'Pedwar Diben' a'r 'datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig'.

Mae atodiadau ynghlwm ac mae'r maes llafur cytunedig drafft yn uchafswm o 10 tudalen. Gobeithio y caiff y drafft ei gymeradwyo ar 28 Ebrill 2022 a'i argymhell yn ffurfiol i'r ALI ar y diwrnod hwn.

Diolchodd RS i LJ.

- Daw'r ail enghraifft gan Elizabeth Thomas, Cyfarwyddwr Addysg, Yr Eglwys yng Nghymru.

Yn draddodiadol mae ysgolion o gymeriad crefyddol wedi cael maes llafur enwadol sydd wedi bod yn benodol i gredoau'r Eglwys.

Gwnaethom y penderfyniad wrth ailysgrifennu'r cyngor enwadol i ysgolion y dylem fabwysiadu'r canllawiau cenedlaethol. Dylai unrhyw gyngor enwadol i ysgolion adeiladu ar y fframwaith statudol a'r canllawiau cenedlaethol ar Hwb.

Dechreuodd y gwaith tua blwyddyn yn ôl ac mae wedi cael ei arwain gan ymarferwyr, yn adlewyrchu a thalu sylw at y canllawiau cenedlaethol. Mae'n ddogfen 'fyw', i'w darllen ar-lein gyda dolenni i Hwb. Er enghraifft, y cyngor cyfreithiol yw dolenn i'r adran gyfreithiol ar Hwb, gyda chanllaw clir i'n penaethiaid/arweinwyr ysgol y dylent ddarllen hwn a deall y canllawiau cyfreithiol.

Roeddem yn sylweddoli nad oeddem eisiau cyflwyno cwricwlwm a oedd yn wahanol iawn i un ymarferwyr yn ysgolion yr ALI. Mae angen cydraddoldeb profiad i'n dysgwyr a'n hymarferwyr wrth ddatblygu'r cwricwlwm.

Mae unrhyw bethau ychwanegol a gynhwyswyd yn y ddogfen yno fel cyngor ac nid i ymddangos fel gorfodaeth. Ceir rhai manylion i helpu ysgolion i gyflawni eu gofynion i'w Hymddiriedolwyr, sy'n un peth ychwanegol i ysgolion o gymeriad crefyddol.

Rydym yn ffodus fod gennym enghraifft yn ein dogfen. Mae ar wahân i'r canllawiau ac i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen. Mae'n adeiladau ar y teithiau dysgu fel y maent yn y canllawiau cenedlaethol, ac mae'n dangos ffyrdd a fydd yn cefnogi ysgolion wrth iddynt ystyried CGM mewn modd gwrthrychol, beirniadol a phlwrailaethol.

Rhodddwyd cyngor am ddyraniadau amser posibl ond nid yw'r rhain yn llym. Fel ysgol o gymeriad crefyddol, mae angen i CGM yn ei ystyr ehangaf fod yn flaenaf oll yn ein hysgolion ac yn bwnc arweiniol.

Wedi ystyried agweddau o adroddiad yr Athro Charlotte Williams a'r trafodaethau diweddar am bwysigrwydd CGM mewn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y cwricwlwm, rydym wedi cynnwys cyngor ategol i'n hysgolion ynghylch hyn.

Bydd y wefan ar gael yn ddwyieithog ac ar gael i bawb wedi i'r cyfieithiad Cymraeg gael ei orffen.

Diolchodd RS i ET.

- Y Camau Nesaf

Gweithredu: Pawb – rhannu'r wybodaeth hon gyda'r CYSAG yn eich cyfarfod nesaf ac o fewn eich Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig.

Gweithredu: Pawb – os oes cwestiynau yn codi o'r wybodaeth neu yng nghyfarfodydd y Gynhadledd, anfonwch e-bost at RS, AP neu LJ dros yr wythnosau nesaf. Gall CCYsAGAuC roi cymorth.

Mae RS yn argymhell y ddau gyfle hyfforddi yma. Bydd RS yn mynychu:

- Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o ran hawliau plant gan Gomisiynydd Plant Cymru, dydd Mawrth 26 Ebrill 2022

<https://www.eventbrite.co.uk/e/cyfle-hyfforddi-sesiwn-saesneg-training-opportunity-english-session-tickets-310439000407>

- Digwyddiad mewnwelediad polisi gan Lywodraeth Cymru i ddangos yr adnoddau Dysgu Proffesiynol ar-lein cenedlaethol ar gyfer CGM gyda chefnogaeth CCYsAGAuC, dydd Mawrth 26 Ebrill 2022.

https://forms.office.com/pages/responsepage.aspx?id=Uq4_TzS3ZEGUCRtqHRR5k-o3QIzEdh5Eu5nA5bErWa5UNzdUWU1BSDg5RUZaN0ZETVFDNzY5QjRGMC4u

Gobaith RS yw y bydd y cyflwyniad o fudd i'r grŵp hwn ac yn help gyda'r broses o gydweithio â'r ALI ar faes llafur cytunedig lleol pob CYSAG.

RT: Holodd RT a oedd hi'n wir nad oedd y gair 'Cytûn' yn cael ei ddefnyddio mwyach e.e. 'Cynadleddau Meysydd Llafur Cytûn 2022'. Mae'n debyg mai 'cytunedig' sy'n cael ei ddefnyddio.

Roedd RS wedi gwirio hyn gyda dogfen Llywodraeth Cymru a chadarnhaodd mai'r term bellach yw 'cytunedig'.

LB: Mae Sir Fynwy yn gwneud mân ychwanegiadau i ystyried yr anghysondebau yn y crynodeb deddfwriaethol.

Gweithredu: LB i anfon yr anghysondebau yma ymlaen i RS.

JHR: Abertawe. Yn dilyn derbyn cyngor cyfreithiol, maent yn cynnal archwiliad athrawon gyda phob ymarferwr am y maes llafur cytunedig er mwyn cael adborth. Fe gysyllton nhw hefyd â swyddfa'r Comisiynydd Plant ac maent yn y broses o gael adborth disgyblion. Maent y tu ôl i nifer o awdurdodau eraill wrth iddynt gyd-awduro gydag ymarferwyr a disgyblion.

Diolchodd JS i JR ac roedd hi'n cytuno fod angen i athrawon a myfyrwyr fod yn ganolog i ddatblygiad y cwricwlwm.

7. Materion Llywodraeth Cymru

- *Cyfarfodydd (Rachel Samuel)*

Mae diweddariad o'r un cyfarfod a gynhaliwyd eisoes wedi cael ei fwydo'n ôl i'r grŵp hwn. Dim diweddariadau newydd. Anfonwyd y nodiadau o'r cyfarfod ag Estyn ar 9 Mawrth 2022 fel rhan o bapurau'r cyfarfod hwn.

- *Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (Libby Jones)*

Y tro diwethaf i CCYSAGauC gyfarfod, nid oedd y canllawiau CGM wedi cael eu cyhoeddi. Fe'u cyhoeddwyd ar 10 Ionawr 2022 i ysgolion, ymarferwyr, CYSAGau a Chynadleddau eu defnyddio.

Dangosodd LJ sut i gyrchu'r Canllawiau CGM ar wefan Hwb a dangosodd y dolenni, fel isod:

- ⇒ <https://Hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance>
- ⇒ <https://Hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/summary-of-legislation/#religion,-values-and-ethics>

MM: Ydi'r termau 'mandadol' a 'statudol' yn golygu'r un peth?

LJ: Ydyn, mae'r ddau'n cael eu defnyddio fel ei gilydd. Mae'n bwysig fod ysgolion yn deall fod CGM yn un o 4 elfen fandadol y cwricwlwm.

MD: Rydym wedi holi am y termau hyn a dywedwyd wrthym am ystyried 'statudol' fel 'dylech' a mandadol fel 'rhaid i chi'.

RB: Oes gennym arweiniad ar y term 'rhoi sylw i'?

KR: Mae 'rhoi sylw i' yn golygu eich bod angen rheswm da i beidio â chydymffurfio ag ef. Mae posibilrwydd o beidio â chydymffurfio ond rhaid trafod hyn gyda Llywodraeth Cymru.

8. Cyflwyniad CCYSAGauC – Dysgu Proffesiynol (Libby Jones, Tania ap Sion)

Rhannodd TS gyflwyniad oedd yn esbonio prosiect cydweithredol CCYSAGauC a Llywodraeth Cymru a sefydlwyd i gynhyrchu cyfres o fodiwlau dysgu proffesiynol a fydd ar gael am ddim ac yn ddwyieithog ar-lein ar Hwb.

Ym mis Rhagfyr 2021, dewisodd CCYSAGauC ddeg ymarferydd arbenigol drwy broses hysbysebu. Mae'r tîm a gafodd ei recriwtio yn cynnwys arbenigedd o bob rhan o Gymru o'r blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd ac anghenion ychwanegol, hefyd uwch arweinwyr a Chymry iaith gyntaf.

Mae'r tîm Prosiect o CCYSAGauC yn cynnwys LJ, KR, RB a TS ac o Lywodraeth Cymru, Rachel Hicks a Lisa Clark.

Cynhaliwyd diwrnod hyfforddiant ar 18 Ionawr i gyflwyno'r nodau, cytuno ar fodiwlau a gosod terfynau amser. Treuliwyd cyfran helaeth o'r diwrnod yn edrych ar CGM yn y cwricwlwm i Gymru o safbwynt deddfwriaethol yn ogystal ag addysgol.

Dangosodd cydweithiwr o Lywodraeth Cymru sut i greu rhestrau chwarae. Bydd y modiwlau dysgu proffesiynol hyn ar ffurf rhestrau chwarae a byddant yn eistedd ochr yn ochr â'r rhestrau chwarae sy'n bodoli'n barod ar Hwb.

Mae'r hyn a gyflawnwyd gan y tîm prosiect hyd yma wedi bod yn drawiadol. Mae'r grŵp wedi bod yn gweithio ar fodiwlau dewisol, mae ychydig o fodiwlau bron wedi'u gorffen ac mae eraill ar wahanol gamau.

Mae sicrhau ansawdd yn rhan bwysig o'r broses. Mae'r tîm prosiect yn gymharol fawr ond yn ddigon bach i weithio'n dda. Mae'r grŵp yn cynnig parhad ar draws camau gwahanol y prosiect ac mae adolygiadau cymheiriaid yn digwydd ar draws y grwpiau.

Yn ddiweddarach bydd grŵp cyfeirio llawer mwy yn rhoi sylwadau ar y sampl modiwlau drafft a bydd gan Hwb ei broses adolygu ei hun hefyd.

Wynebodd y tîm prosiect gryn heriau o ganlyniadau i'r pwysau mawr mewn ysgolion oherwydd COVID 19 ond mae'n dal wedi ymrwmo i gynhyrchu'r adnoddau safon uchel yma.

Cyflwynodd LJ gynnwys drafft y rhestrau chwarae drwy ddolen ar-lein. Mae'r modiwlau drafft presennol yn cynnwys:

- ⇒ Beth sy'n newydd i Benaethiaid
- ⇒ Beth sy'n newydd i'r Blynyddoedd Cynnar
- ⇒ Beth sy'n newydd i'r Cynradd
- ⇒ Beth sy'n newydd i'r Uwchradd
- ⇒ Beth sy'n newydd i ADY
- ⇒ CGM a'r Dyniaethau
- ⇒ CGM a Chynnydd
- ⇒ CAM a Rhifedd
- ⇒ CGM a Chymhwysedd Digidol
- ⇒ CGM a Llythrennedd
- ⇒ CGM: agwedd at bedagogiaeth (i Benaethiaid)

Mae'r datblygiad yn parhau a bydd modiwlau eraill yn cael eu hychwanegu.

Nodau i bob modiwl:

- ⇒ Darparu gwaelodlin i bob ysgol ar draws Cymru.

- ⇒ Caiff ymarferwyr eu hannog i ymgysylltu'n feirniadol. Cynhwysir enghreifftiau o rai ysgolion, ond syniadau yw'r enghreifftiau darluniadol hyn ar gyfer cynllunio ac ni fernir o reidrwydd mai dyma'r arfer gorau pendant i bob ysgol. Mae'r modiwlau hyn yn galluogi datblygu CGM yn effeithiol ym mhob lleoliad ysgol.
- ⇒ Datblygu casgliad o adnoddau – bydd yna adnoddau eraill, nid dim ond y modiwlau hyn.
- ⇒ Sgyrsiau parhaus rhwng CCYSAGauC a Llywodraeth Cymru am y cynnwys.

Rhannwyd enghraifft o restr chwarae, bydd fformat pob rhestr chwarae yr un peth.

1. Tudalen Deitl
2. Tudalen Groeso
3. Tudalen Gynnwys
4. Ymgysylltu'n feirniadol
5. Nodau
6. Prif newidiadau – Beth sy'n newid? Beth sy'n aros yr un peth? Yn cynnwys cwisiau.
7. Goblygiadau
8. Astudiaethau achos
9. Crynodeb o Bethau i'w Hystyried a myfyrio

Gohiriwyd y dyddiadau cyhoeddi oherwydd, fel y soniwyd ynghynt, pwysau absenoldebau mewn ysgolion oherwydd COVID 19.

Bydd y rhestr chwarae yn mynd i'r grŵp cyfeirio yn ystod gwyliau'r Pasg a bydd y pum modiwl cyntaf yn cael eu cyhoeddi yn hanner cyntaf tymor yr haf.

LJ: Bydd y rhestrau chwarae yn cael eu harddangos yn y digwyddiad mewnwelediad polisi a gynhelir gan Lywodraeth ddydd Mawrth, 26 Ebrill 2022, fel y nododd RS.

LB: Ydi'r ysgolion ffydd wedi'u cynnwys yn y grŵp cyfeirio ac a ellir ychwanegu at gynnwys y rhestr chwarae wrth i enghreifftiau newydd gael eu creu?

LJ: Mae ychwanegu enghreifftiau newydd yn syniad da a byddwn yn cynnwys hyn yn ein trafodaethau nesaf â Llywodraeth Cymru.

TaS: Arbrofol yw'r adnodd dysgu proffesiynol hwn i ddarganfod beth sy'n gweithio a bydd yn cael ei adolygu a'i addasu dros amser. Mae'n bwysig cadw safbwynt beirniadol drwyddi draw.

KR: Mae'r grŵp cyfeirio yn cynnwys y rheiny heb arbenigedd CGM er mwyn deall eu profiad wrth ddefnyddio'r modiwlau yn ogystal ag arbenigwyr CGM. Cynhwyswyd arbenigwyr o ysgolion ffydd yn y grŵp arbenigol a ddrafftiodd yr adnoddau.

Diolchodd RS yn ffurfiol i'r athrawon ar ran CCYSAGauC am y gwaith a wnaed gan y grŵp hwn yn ystod yr adeg heriol yma.

9. Diweddariadau:

- **Cyngor Addysg Grefyddol (REC) (Kathy Riddick)**

Penodwyd Swyddog Gweithredol newydd a bydd yr enw'n cael ei gyhoeddi yn y Cyfarfod Blynyddol nesaf ar 5 Mai 2022. Argymhellir eu gwahodd i gyfarfod CCYSAGauC yn nhymor yr Hydref.

Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu'r fframwaith i'r prosiect Bydolygon. Derbyniwyd mynegiannau o ddiddordeb a bydd yn cael ei gyhoeddi ar ôl iddi gael ei ysgrifennu y flwyddyn nesaf. Prosiect diddorol ond nid yw'n cyd-fynd yn union â'r cwricwlwm yng Nghymru.

○ **EFTRE (Phil Lord)**

Llongyfarchodd RS PL ar ymgymryd â rôl cynrychiolydd CCYSAGauC ar EFTRE.

Cyfarfu EFTRE ar-lein yn ddiweddar. Mae yna wefan newydd – www.eftre.net. Agwedd fwyaf gwerthfawr y wefan yw'r adran adroddiadau o'r gwledydd. Gan ei bod yn wefan newydd, anogir aelodau gwledydd EFTRE i roi diweddariadau.

Gweithredu: Bydd PL yn creu adroddiad byr o'r cyfarfod i'w gynnwys yn y cofnodion.

Mae Cymru'n rhan o brosiect EFTRE 'Beth mae Covid 19 yn ei ddatgelu i arbenigwyr AG?' Arolwg pan-Ewropeaidd oedd hwn o ymarferwyr crefyddol. Cwlbhaodd PL yr arolwg ar ran CCYSAGauC. PL i hysbysu'r grŵp pan gyhoeddir y canlyniadau.

Trafodwyd y gynhadledd a gynhelir yn Rhufain, y Thema yw "Bridge over Troubled Waters - RE in changing times' Mae'r amseroedd sy'n newid yn cyfeirio at newid hinsawdd, y pandemig, rhyfel a Brexit.

Bydd papurau ymchwil yn cael eu datblygu o ganlyniad i'r gynhadledd. Mae hi ar agor hefyd i athrawon a'r rhai sy'n creu meysydd llafur. Bydd adnoddau digidol megis recordiadau o seminarau ar gael ar-lein ar ôl y gynhadledd. Bydd rhai o'r deunyddiau rhithiol yn berthnasol i Gymru.

Mae PL yn argymhell fod aelodau CCYSAGauC yn hysbysu eu CYSAGau am waith EFTRE, ei wefan a'r nodiadau o'r cyfarfod.

Mae EFTRE yn chwilio am wlad i groesawu cynhadledd 2025. Roedd PL yn meddwl tybed a hoffai Cymru fod y wlad sy'n lletya. Yn 2025, bydd y cwricwlwm newydd i Gymru wedi cyrraedd blwyddyn 10 a bydd yn 'taro' ein grŵp blwyddyn arholiad. Gallai Cymru gynnig prif siaradwyr.

Trefnwyd gweithdy ar-lein gan EFTRE o'r enw 'Longing for peace – strategies for the RE classroom'. Fe'i darparwyd gan Norman Richardson.

Bydd PL yn rhoi gwybod am unrhyw weithdai yn y dyfodol ac mae'n argymhell fod y grŵp hwn yn sôn amdanynt wrth athrawon.

CA: Yn pryderu mewn addysg nad yw achosion rhyfel a sut mae eu hatal yn cael sylw? Sut ydym yn edrych ar wleidyddiaeth ryngwladol ac ystyried y byd fel un? Angen i hyn fod yn greiddiol i addysg.

MS: I dawelu meddwl CA, ym Mhowys, mae gan y cwricwlwm cynradd, yn arbennig, brosiectau ar wrthdaro, sut gellir mynd i'r afael â gwrthdaro, deall empathi, crefyddau

gwahanol, a datrys heb wrthdaro. Pwyslais ar ddeall fod angen parchu pobl a bod gan bawb ei safbwynt.

JHR: Gan fod yr enw wedi newid i CGM, bydd disgwyl i'r rhai sy'n dylunio'r cwricwlwm gyflwyno gwerthoedd a moeseg. Bydd cyfle i ddangos cydymdeimlad a rhannu gwerthoedd yn ganolog yn ein pwnc. Byddwn yn symud ymlaen ar yr agwedd hon yn fwy na'r rhan fwyaf o bynciau eraill.

LB: Yn y crynodeb Deddfwriaethol mae sôn am argyhoeddiadau athronyddol sy'n cynnwys newid hinsawdd a grëwyd gan ddyn ac mae hefyd yn cynnwys heddychiaeth sy'n gysylltiedig â'r drafodaeth flaenorol am heddwch.

- **MAGC (Paul Morgan)**

Yn absenoldeb PM, dywedodd Trysorydd MAGC, RT nad oedd dim i'w adrodd

- **Rhwydwaith Rhyng-ffydd (Libby Jones)**

Gwahoddwyd LJ gan y Rhwydwaith ar ran CCYSAGauC i gyflwyno yn y cyfarfod cenedlaethol diweddaraf, 'Working in partnership for the common good'.

Gyda chefnogaeth Aelodau Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC, cafwyd cyflwyniad yn un o'r gweithdai. Roedd gan y Rhwydwaith ddiddordeb mewn gwybod sut mae CYSAGau yng Nghymru yn ymgysylltu ag ysgolion ac yn hwyluso cysylltiadau rhwng ysgolion a grwpiau ffydd a chred.

Aeth pethau'n dda, a chafwyd cwestiynau am yr enw CGM. Nid oeddent yn poeni am gwmpas y pwnc ond am effaith yr enwau CYSAG a CCYSAGauC. Roedd y Rhwydwaith yn poeni y bydd CYSAGau yn newid eu henw.

Fel grŵp nid yw CCYSAGauC wedi trafod y newid enw ond mae'n tybio y bydd yn cael ei newid gan y byddwn bellach yn cefnogi'r Cynadleddau Maes Llafur Cytunedig.

Bydd LJ yn rhoi dolenni i Twitter a Facebook yn y sgwrs Zoom sy'n dangos y drafodaeth yn dilyn cyflwyniad LJ.

RS: Bydd enw CCYSAGauC yn cael ei drafod ac o bosibl ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith. Byddent yn ddiolchgar i dderbyn awgrymiadau.

Gweithredu: Pawb: Anfon unrhyw awgrymiadau am newid enw CCYSAGauC i RS.

- **Diweddariad PYCAG (Paula Webber)**

Gan nad oedd PW yn dda, canslwyd cyfarfod swyddogol PYCAG. Roedd rhai o aelodau PYCAG wedi cyfarfod i drafod y cwestiynau am Gynadleddau'r Maes Llafur Cytunedig.

- **Adroddiad o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2022 (Rachel Samuel)**

Bydd RS yn rhannu diweddariad manwl drwy e-bost.

Y brif drafodaeth oedd y newid arfaethedig i gyfansoddiad CCYSAGauC. Dyma'r fersiwn o'r ymgynghoriad a anfonwyd i'r grŵp hwn ac i'r CYSAGau tua 2 fis yn ôl.

Diolchodd RS i'r CYSAGau sydd wedi ymateb. Ystyriwyd pob ymateb a'u hymgorffori lle'n briodol yn fersiwn ddiweddaraf y cyfansoddiad arfaethedig.

Gweithredu: Unrhyw sylwadau pellach gan GYSAGau i'w derbyn cyn gynted â phosibl ac erbyn dydd Gwener 13 Mai.

Mae cyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith ddydd Mawrth 17 Mai. Bydd y fersiwn wedi'i diweddarau yn cael ei hanfon, a'i hystyried yn y Cyfarfod Blynyddol ddiwedd Mehefin.

Diolchodd RS i JM, o'r Pwyllgor Gwaith, am gymryd y cyfrifoldeb o redeg y wefan o ddydd i ddydd.

Cynhyrchwyd ymwadiad i'w ddefnyddio wrth rannu adnoddau trydydd parti. Mae'r ymwadiad yn egluro y gallai'r adnoddau hyn fod yn fuddiol, ond nad yw CCYSAGauC o reidrwydd yn cymeradwyo'r adnoddau.

Gwnaed penderfyniad ynghylch rheolaeth fersiwn cofnodion cyfarfodydd CCYSAGauC a'r Pwyllgor Gwaith. Mae fersiwn ddiweddaraf y cofnodion yn mynnu bod y Cadeirydd yn eu llofnodi a'u dyddio ac mae'r rhain yn cael eu cadw'n ddigidol gan yr Ysgrifennydd.

Trafodwyd ethol aelodau newydd i'r Pwyllgor Gwaith, mae tair sedd ar gael ynghyd â'r Is Gadeirydd. Cadarnhaodd RS y bydd ei thymor dwy flynedd hi fel Cadeirydd yn dod i ben yn yr Haf ac y bydd TS yn cymryd drosodd fel Cadeirydd.

Dylid anfon enwebiadau ar gyfer y swyddi erbyn 8 Ebrill 2022 i'r Ysgrifennydd neu'r Is Ysgrifennydd.

Bydd CCYSAGauC yn gofyn i'r enwebeion ysgrifennu portread byr, a fydd wedyn yn cael ei anfon i'r CYSAGau, a bydd pleidlais yn y Cyfarfod Blynyddol yn yr Haf.

Diolchodd RS i PW am lenwi arolwg EFTRE ar ran CCYSAGauC ac o safbwynt Cymreig.

Adroddir am y cyfarfod ag Estyn yn y papurau. Soniwyd am y cyfarfod â Llywodraeth Cymru ynghynt yn y cyfarfod hwn.

Cynhaliwyd cyfarfod gyda CBAC a chadarnhawyd gwybodaeth ymlaen llaw am gwestiwn D Uned 1 TGAU i bawb.

GWEITHREDU: Bydd y dogfennau canlynol yn cael eu rhannu gan AP drwy e-bost: Diweddariad o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC a'r ddau gyflwyniad o gyfarfod heddiw.

PR: Gofynnodd a oedd adroddiad Estyn ar gael yn Gymraeg?

GWEITHREDU: AP i anfon adroddiad Estyn i'r cyfieithydd.

10. Gohebiaeth (Alice Parry)

CA: Hysbysodd y grŵp am y gynhadledd fyd-eang – 'Building Vibrant Communities' i'w chynnal 15-17 Ebrill 2022

NB: Hysbysodd y grŵp am ddathliadau Visakhi ar 14 Ebrill i Sikhiaid a rhai Hindŵiaid.

11. Unrhyw fater arall (i'w cytuno cyn y cyfarfod gyda'r Cadeirydd)

RS: Ymddiheuriadau nad yw MS Teams yn galluogi cyfieithu o'r Gymraeg yn anffodus. Bydd cyflwyniadau a phapurau ychwanegol yn cael eu hanfon ar ôl y cyfarfod a byddant ar gael yn ddwyieithog yn syth ar ôl iddynt gael eu dychwelyd gan y cyfieithwyr.

12. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Y dyddiad dros dro ar gyfer y cyfarfod nesaf a'r Cyfarfod Blynyddol y229 Mehefin 2022. Bydd ar-lein ac yn cael ei letya gan Sir y Fflint.

Daeth y cyfarfod i ben am: 1.01p.m.

DRAFT



**Wales Association of SACREs meeting,
Virtual via Microsoft Teams
6th April 2022
10.45a.m. – 1.00p.m.**

Attendance

<p>Ynys Môn / Anglesey Rheinallt Thomas (RT)</p> <p>Blaenau Gwent Kathy Riddick (KR) Chris Abbas (CA)</p> <p>Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend Alice Parry (AP)</p> <p>Caerffili/ Caerphilly John Taylor (JT) Janet Jones (JJ)</p> <p>Caerdydd / Cardiff</p> <p>Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire Gwyneth Thomas (GT) Aled Jones (AJ)</p> <p>Ceredigion Mary Davies (MD) Maldwyn Pryse (MP)</p> <p>Conwy Phil Lord (PL) Jennie Downes (JD) Collete Owen (CO) Roger Boon (RB)</p>	<p>Sir Ddinbych / Denbighshire Phil Lord (PL) Collete Owen (CO)</p> <p>Sir y Fflint / Flintshire Dave Mackie (DM) Jane Borthwick</p> <p>Gwynedd Paul Rowlinson (PR)</p> <p>Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil</p> <p>Sir Fynwy / Monmouthshire Louise Brown (LB) Suzanne Gooding (SG)</p> <p>Castell-nedd Port Talbot / Neath and Port Talbot Rachel Samuel (RS) Lee Workman (LW)</p> <p>Casnewydd / Newport Neeta Baicher (NB) Huw Stephens (HS) Peter Rees (PR) Mike Daley (MD)</p> <p>Sir Benfro / Pembrokeshire</p>	<p>Powys John Mitson (JM) Mary Strong (MS)</p> <p>Rhondda Cynon Taf Donna Graves (DG) Matthew Maidment (MM)</p> <p>Abertawe / Swansea Jennifer Harding-Richards (JHR)</p> <p>Torfaen Anna Britten (AB)</p> <p>Bro Morgannwg / Vale of Glamorgan</p> <p>Wrecsam / Wrexham Libby Jones (LJ) Tania ap Siôn (TS)</p>	<p>NAPfRE</p> <p>Observers: REMW</p> <p>WJEC Andrew Pearce (AP)</p> <p>ESTYN</p> <p>Welsh Government</p> <p>REC Kathy Riddick (KR)</p> <p>Church in Wales Elizabeth Thomas (ET)</p> <p>Catholic Education Service Angela Keller (AK)</p> <p>Qualification Wales</p> <p>Interfaith Network</p> <p>ADEW University Of Wales Elin Stock (ES)</p> <p>Presenters Hayley Jones (HJ)</p> <p>Minutes (from recording) Jo Nicholls (JN)</p>
--	--	--	---

Minutes of the meeting

1. Introduction and welcome

RS welcomed everyone (bilingually) to the spring meeting.

Mike Daley, Lead Educational Support Officer, Neath and Port Talbot, on behalf of Andrew Thomas, Director of Education, welcomed everyone as the hosting SACRE.

MD mentioned the challenges of the last two years for both learners and schools and the current emerging cost of living crisis. Schools and teachers have had to deal with big questions from the learners and to adapt almost overnight to a different way of working.

Those working in schools are remarkable, resilient, and inspiring. The Local Authority puts a great emphasis on pupil well-being, and we need remember to consider and support those working in the schools as well as the learners.

MD took the opportunity to thank all those working in schools and to WASACRE for supporting the schools during this difficult time.

With the introduction of the curriculum for Wales for children up to age of 11 in September this year and the challenge of schools having to consider the design and the delivery of mandatory religious values and ethics, the role of WASACRE has never been more important. WASACRE's involvement in the many projects to support and promote religious education and collective worship in Wales is invaluable. The importance and relevance of such meetings and how we respond to these significant issues has rarely been as important as it is now. The need to work together, to share best practice to engage with the process of this reform and speak on behalf of all the SACREs is vital.

RS thanked MD for his introduction.

2. Quiet reflection

RS acknowledged that at this time year for religion it is a time of reflection and confirmation of faith. Christianity with Easter, Judaism with Passover, Islam with Ramadan and Bahai celebrating the new year. These events of positivity are central to each faith even though the world we live in is in turmoil. RS led members through a reflection on those people suffering due to the actions of others.

3. Apologies

Apologies were received from John Meredith (Blaenau Gwent) Edward Evans, (Executive Committee), Vicky Barlow (Flintshire SACRE), Angela Keller (Catholic Education Service), Rachel Bendall (ADEW) and Councillor Huw James.

4. Minutes of the last meeting Microsoft Teams held on 23rd November 2021.

LB requested an amendment to page 4, 'principal religions', which should read 'Christianity and other principal religions'

CO confirmed her attendance at the last meeting and explained that her name on the Teams attendance list will appear as 'Primary School' for future minutes. With these two amendments, the minutes were agreed as an accurate record of the meeting held on 23rd November 2021. HS proposed to accept the minutes and RT seconded.

5. Matters arising from minutes of the last WASACRE meeting

RS explained that the matters arising from the last meeting are contained within the agenda items for today's meeting.

RB, Chair of Conway SACRE, stated that he was not present at the last meeting and wished to offer a clarification to the concern that was expressed about the relationship of GWE and Conway SACRE. RB confirmed that the LA had withdrawn financial support for SACRE. As a result, RB produced a three-year development plan for the work of the SACREs and sent it to the Director of Education (DOE). The DOE was very supportive and has now become integrated within the development of the new curriculum. A new partnership has been set up with the LA, the SACREs and the teachers. PL has been bought back as an advisor on a part time basis and he now attends the planning meetings of the authority when relevant to RVE. PL is also responsible for leading a team of teachers in developing the resources for the new curriculum.

The authorities were not permanently established with the work of SACRE; however, the Director of Education now attends meetings, and we now have a successful working party, but it would be beneficial to have more of PL's time.

RS welcomed this positive progress in Gwynedd and thanked RB for sharing.

6. Agreed Syllabus Conferences 2022

RS presented an update in terms of the LA organised agreed syllabus conferences. Presentation includes key guidance and responses from the Welsh Government to the questions that the SACREs have been asking WASACRE. An English version of the copy of will be sent by email after the meeting. The Welsh translation will be available at the end of week.

RS' s presentation focused on aspects of:

Legislation Summary – aims of the agreed syllabus

The agreed syllabus and the Curriculum for Wales

Local Determination

Key messages when constructing an agreed syllabus

WG responses to WASACRE questions

- Examples of how different settings/LA's have responded

- The first example is from Libby Jones, Wrexham SACRE

Wrexham LA constituted an initial ASC meeting in January 2022 which opened the discussion and introduced colleagues to the RVE guidance. From that meeting a working party was set up to work on behalf of the ASC. This working group was made up of invited representatives from the ASC, from the Wrexham Primary Heads' Federation, the Wrexham Secondary Heads' Association, also other teachers and other people who were considered to be helpful in preparing the draft agreed syllabus. The Working party met fortnightly to look at the RVE guidance in detail.

At the agreed syllabus conference in January there were very few questions about the content of the RVE guidance and legislation because this had been previously shared regularly throughout the development of the guidance. The members were happy with the content. The questions that arose were concerning process and protocol, which were taken to Welsh Government, have been addressed in RS's presentation today.

Rather than copy the text from Hwb and place it in a document, it was decided that a link from the agreed syllabus direct to the RVE guidance would be given within the draft agreed syllabus and that there would be embedded links to different sections to the guidance. Welsh Government have been asked to provide these embedded links on Hwb so different sections can be linked easily.

Although there is extra information in the Wrexham draft agreed syllabus, it is not new information but covers specific areas which Wrexham would like to be highlighted from the guidance and legislation.

The purpose and intention of the guidance is that it should be read online. It is important to make it straightforward for schools and practitioners. Practitioners especially should be able to go to different sections easily and access the embedded links to access the framework e.g., links to the 'Four Purposes' and the 'What Matters statement'.

There are appendixes attached and the draft agreed syllabus is a maximum of n=10 pages. Hopefully the draft will be approved on 28th April 2022 and formally recommended to the LA on this day.

RS thanked LJ.

- The second example is from Elizabeth Thomas, Direction of Education, Church in Wales.

Schools of a religious character have traditionally had a denominational syllabus which has been specific to the tenants of the Church.

We made the decision in our re-write of the denominational advice for schools that we should adopt in practice the national guidance. Any denominational advice for schools should build on statutory framework and the national guidance on Hwb.

The work was started about a year ago and has been practitioner led, mirroring and having regard for the national guidance. It is a 'living' document, meant to be read online with links to Hwb. For example, the legal advice is simply a link to the legal section on Hwb, with a clear steer for our head teachers/ school leader that they should engage purposely and understand the legal guidance.

We were mindful that we didn't want to deliver a curriculum which was significantly different to practitioners in LA schools. We require parity of experience for our learners and practitioners in developing their curriculum.

Any additionality that has been included in the document is provided as advice and not worded to appear as compulsion. Certain detail is included to support schools in fulfilling their requirements to their Trustees which is one additionality for schools of a religious character.

We are fortunate to include exemplification in our document. It is separate to the guidance and found at the end of the document. Building on learning journeys as they are in the national guidance, and it exemplifies ways that will support schools in approaching RVE from an objective critical and pluralistic way.

Advice has been given about possible time allocations but are not prescriptive. As a school of religious character, RVE in its widest sense needs to be utmost and foremost and needs to be a lead subject in our schools.

Taken on board the aspects of Professor Charlotte Williams's report and recent discussions with regard to the importance of RVE in furthering equality and diversity within the curriculum, we have included supporting advice for our schools around this.

The website will be available bilingually and freely available to all once the Welsh translation has been completed.

RS thanked ET.

- Next Steps

Action: All - share this information with the SACRE's in your next meeting and within your ASC.

Action: All - if questions arise from this information or during the ASC meetings, please email RS, AP or LJ over the next few weeks. WASACRE will provide support.

RS recommends the following two training opportunities. RS will be attending:

- 'A children's rights approach to Religion, Values and Ethics' by the Children's commissioner for Wales on Tuesday 26th of April 2022

<https://www.eventbrite.co.uk/e/cyfle-hyfforddi-sesiwn-saesneg-training-opportunity-english-session-tickets-310439000407>

- Policy insight event hosted by Welsh Government showcasing the national online Professional Learning recourses for RVE being supported by WASACRE on Tuesday 26th of April 2022.

https://forms.office.com/pages/responsepage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k-o3QIzEdh5Eu5nA5bErWa5UNzdUWU1BSDg5RUZaN0ZETVFDNzY5QjRGMC4u

RS hopes that the presentation will benefit this group and help with the process of co-working with the LA on each SACRE's locally determined agreed syllabi.

RT: At a forum meeting with the Welsh Government the term 'Cytun' is no longer used e.g., in 'Cynadleddau Meusydd llafur Cytun 2022', 'Cytun should be replaced with 'cytunedig', Can you check?

RS: I have checked the Welsh Government document and confirm the terminology to be used is 'cytunedig'.

LB: Monmouthshire is making small additions to take in account the inaccuracies in the legislative summary

Action: LB to email RS the inaccuracies in the Welsh Government's legislative summary.

JHR: Swansea. After receiving legal advice, we are conducting a teachers audit to all practitioners with regard to the agreed syllabus in order to receive feedback. We also contacted the Children's Commissioner's office and are in the process of receiving pupil feedback. We are behind a lot of other authorities as we co construct with practitioners and pupils.

